

## Ysgrifennu'ch datganiad personol

Fe fydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o'ch priodoldeb ar gyfer y swydd mewn ffurf Datganiad Personol wedi'i seilio ar Gymhwysedd.

### Y Fanyleb Person

Mae'r Fanyleb Person yn gosod y cymwyseddau personol allweddol sydd eu hangen ac sydd wedi'u seilio ar fframwaith cymwyseddau Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Gall hefyd gynnwys unrhyw ofynion penodol i'r swydd, megis cymwysterau academaidd, profiad a gwybodaeth benodol i nodweddion arbennig y swydd.

### Y Datganiad Personol

Fe fydd angen i'r ddogfen hon adlewyrchu'ch cyflawniadau yn erbyn y meysydd cymhwysedd sy'n benodol i'r swydd. Mae gofyn i chi felly ddarparu hunan asesiad yn erbyn y meysydd cymhwysedd craidd a'r ymddygiadau penodol a nodwyd ym manylion y swydd a'r Fanyleb Person. Fe fydd y panel yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn ateb y gofynion hyn ar y lefel cymhwysedd priodol.

- Dylai'r cyflawniadau fod yn rhai rydych wedi buddsoddi'ch amser a'ch ymdrech eich hun
- Dylent fod yn gymharol ddiweddar, ond peidiwch â gadael i hynny eich cyfyngu rhag cynnwys rhyw beth perthnasol rydych wedi cyflawni yn eich gyrfa

Dylai disgrifiad da o gyflawniad:

- Fod yn benodol i'r cymwyseddau a'r ymddygiadau craidd y gofynnwyd amdanynt
- Esbonio beth wnaethoch chi a sut wnaethoch chi oresgyn unrhyw anawsterau penodol a/neu nodi unrhyw wersi a ddysgwyd
- Nodi'r canlyniadau a'r buddiannau
- Nodi amserlen a dyddiad bras
- Nodi'r effaith mae'r dystiolaeth wedi'i gael.

Dylech lanlwytho'ch datganiad personol a chopi diweddar o'ch CV i'r ffurflen gais ar y dudalen 'Tystiolaeth o'ch addasrwydd ar gyfer y swydd'. Dim ond dogfennau Word neu pdf gellir eu lanlwytho i'r ffurflen gais. Mae cyfarwyddiadau yn y ffurflen gais ar sut i atodi'r ddwy ddogfen.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y swydd, dylech ystyried cysylltu â'r rheolwr llinell.

## Sut ydw i'n paratoi fy nhystiolaeth?

Dylech gynnwys esiamplau go iawn i arddangos yr ymddygiadau cymhwysedd / meini prawf penodol i'r swydd sydd wedi'u rhestru yn yr hysbyseb swydd. Dylech eu hysgrifennu mewn modd sy'n cynorthwyo'r panel i asesu eich priodoldeb ar gyfer y swydd, neu'r cyfle am ddyrchafiad.

### Y fanyleb person

Dylech nodi sut rydych chi'n cwrdd â'r meini prawf a restrwyd yn y fanyleb person drwy dynnu ar eich profiad, gwybodaeth a'ch llwyddiannau.

Meini prawf yw'r rhain a nodwyd gan y rheolwr llinell sy'n recriwtio fel rhai sy'n hollbwysig i'r rôl benodol dan sylw. Gallent gynnwys sgiliau, profiad neu wybodaeth benodol mewn maes sy'n berthnasol i'r rôl, neu hyd yn oed gymhwyster penodol sy'n berthnasol i'r rôl. Os na fyddwch yn rhoi digon o dystiolaeth ar gyfer y meini prawf mae'n annhebygol y bydd eich cais yn mynd ymhellach na'r cam sifftio.

### Cymwyseddau

Y cymwyseddau yw'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau perfformiad llwyddiannus. Mae [Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil \(dolen i'r dudalen ar y fewnwyd\)](#) yn amlinellu 10 cymhwysedd (o dan 3 phrif faes neu 'glwstwr') a ystyrir yn allweddol i sicrhau perfformiad llwyddiannus o fewn y Gwasanaeth Sifil. Ar gyfer pob cymhwysedd, disgrifir yr hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol a rhoddir rhai enghreifftiau o ymddygiadau effeithiol ac aneffeithiol ar bob lefel. Yn eich cais, gofynnir ichi roi tystiolaeth, ar ffurf enghreifftiau o fywyd go iawn, o sut rydych wedi dangos yr ymddygiadau allweddol a nodir fel rhai sy'n hanfodol i'r rôl dan sylw. Caiff cymwyseddau eu defnyddio i asesu sut rydych wedi ymddwyn yn y gorffennol, gan fod hyn yn rhoi syniad da o sut y byddwch yn perfformio yn y dyfodol. Os ydych chi'n ymgeisio am ddyrchafiad, dylech sicrhau hefyd bod eich esiamplau yn anelu at adlewyrchu'r lefel cyfrifoldeb ar gyfer y radd rydych yn ymgeisio amdani, er mwyn dangos i'r panel eich bod yn barod i gael eich dyrchafu i'r radd honno.

- Gwnewch yn siŵr bod eich enghreifftiau ar y lefel iawn ar gyfer y radd. Cyfeiriwch at Gymwyseddau'r Uwch Wasanaeth Sifil, sydd wedi'u hamlinellu yn y swydd ddisgrifiad, ac yn [Fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil \(dolen i'r dudalen ar y fewnwyd\)](#); dylai hyn eich cynorthwyo i lunio'ch esiamplau ar y lefel cywir.
- Defnyddiwch dystiolaeth o'r gweithle os oes modd. Fodd bynnag, ni chewch eich cosbi os defnyddiwch esiamplau wedi'u tynnu o rôl rydych chi'n ei ddal tu allan i'r gwaith, os yw'r esiampl yn dangos cymhwysedd ar lefel cyfrifoldeb sy'n briodol i'r rôl dan sylw.

- Ysgrifennwch mewn iaith glir sy'n ramadegol gywir, gan gynnwys y sillafu. Byddwch yn gryno.
- Dylech osgoi defnyddio jargon, talfyriadau na thermau arbenigol
- Ysgrifennwch yn y gorffennol, hy, cyflawnais, gwiriais. Defnyddiwch ferfau gweithredol i greu mwy o effaith ac argraff (e.e. trefnais, rheolais, gwellaais, sefydlais, hwylusais)
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod y panel sifftio yn gwybod beth yw'r sefyllfa. Dim ond yr hyn rydych chi wedi'i nodi yn y ffurflen gais y byddant yn ei wybod, a dim ond yr hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu y gallant ei asesu.
- Cofiwch sôn am y canlyniadau, sut aethoch ati i ddatrys problemau/goresgyn rhwystrau, pam roedd yr hyn a wnaethoch chi yn effeithiol a/neu sut y gallech fod wedi bod yn fwy effeithiol

Gall y dull **STAR** hefyd eich helpu i gyflwyno eich tystiolaeth drwy roi strwythur a ffocws i'ch enghreifftiau yn y ffurflen gais a'r cyfweiliad:

- **Sefyllfa (Situation)** – yn fyr, disgrifiwch y cyd-destun a'ch rôl chi
- **Tasg (Task)** – yr her neu'r dasg benodol oedd yn eich wynebu
- **Gweithredu (Action)** – beth wnaethoch chi, sut a pham
- **Canlyniad (Result)** – beth wnaethoch chi ei gyflawni drwy'r hyn a wnaethoch chi

Cadwch fanylion y **sefyllfa** a'r **dasg** yn gryno. Canolbwyntiwch ar y **gweithredu** a'r **canlyniad**. Os nad oedd y canlyniad yn gwbl lwyddiannus, disgrifiwch yr hyn a ddysgoch o'r profiad a beth y byddech yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Efallai y bydd **STAR** yn eich helpu i gofio am bob pwynt mae angen ichi ei wneud. Gallai eich helpu i ddrafftio eich cais a sicrhau eich bod yn sôn am bopeth wnaethoch chi'n bersonol. Cofiwch ganolbwyntio ar eich cryfderau. Gallai eich helpu yn y cyfweiliad hefyd, drwy roi strwythur ichi ei ddilyn wrth ateb.

Mae yna fframweithiau eraill ar gael hefyd i'ch helpu i strwythuro eich tystiolaeth. Mae'n werth ichi dreulio peth amser yn ymchwilio i dechnegau gwneud cais a thechnegau cyfweiliad fel y gallwch ddod o hyd i'r fframwaith sy'n gweddu orau i chi.